# Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

## Panel Craffu

## Ymarfer Hapsamplu

## Stelcio ac Aflonyddu

## Canfyddiadau ac Adborth Aelodau'r Panel ar Achosion Ieuenctid

## Medi 2025

# Cynnwys

1.0 Trosolwg ........ 2
2.0 Cefndir, diben a methodoleg ........ 2
3.0 Cymeradwyaeth gan gadeirydd y panel ........ 3
4.0 Camau a gymerwyd yn dilyn cyfarfod blaenorol y panel ........ 3
5.0 Meysydd i'w gwella a themâu sy'n codi droeon (achosion ieuenctid) ........ 3
6.0 Ystyriaeth o achosion ieuenctid ........ 3
7.0 Asesiadau'r panel hyd yma ........ 6
8.0 Ethnigrwydd a rhywedd ........ 8
9.0 Ffocws y panel yn y dyfodol ........ 9
10.0 Camau gweithredu ........ 9

## 1.0 Trosolwg

Ar 29 Medi 2025, aeth aelodau o'r Panel Craffu ar Ddatrysiadau y Tu Allan i’r Llys gyfarfod i adolygu detholiad o saith achos oedolion ac wyth achos ieuenctid yn ymwneud â difrod troseddol neu drosedd yn erbyn y drefn gyhoeddus a oedd wedi cael eu trin drwy ddatrysiad y tu allan i’r llys. Bydd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ganfyddiadau’r panel mewn perthynas ag achosion yr ieuenctid.

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn yn rhithwir trwy gyfrwng Microsoft Teams.

## 2.0 Cefndir, diben a methodoleg

Diben y Panel Craffu ar Ddatrysiadau y Tu Allan i’r Llys yw asesu, craffu a rheoli yn annibynnol ansawdd y defnydd o ddatrysiadau y tu allan i’r llys gan Heddlu Dyfed-Powys. Gall y panel wneud argymhellion, rhoi adborth ar achosion unigol i swyddogion, cyfathrebu canfyddiadau, hyrwyddo arferion gorau, a nodi anghenion datblygu polisi neu anghenion hyfforddi posibl i’w hystyried gan yr heddlu neu asiantaethau eraill sy’n gysylltiedig. Ni all y panel newid canlyniad gwreiddiol yr achos.

Mae aelodaeth y panel yn cynnwys partneriaid o fewn y system cyfiawnder troseddol sy’n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, aelodau o Heddlu Dyfed-Powys, Swyddfa’r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, y Gwasanaeth Prawf, Gwasanaeth Erlyn y Goron, y Tîm Cyfiawnder Ieuenctid a mainc ynadon.

Gyda’i gilydd, mae aelodau’r panel yn cytuno ar faes i ganolbwyntio arno ym mhob cyfarfod. Maent yn cael ffeiliau achos perthnasol bythefnos cyn pob cyfarfod sydd wedi’u dewis ar hap gan gadeirydd y panel.  Yna, mae’r panel yn cyfarfod i drafod pob achos a, lle bo’n bosibl, yn dod i gasgliad ynghylch priodoldeb y datrysiad. Wrth benderfynu ar hyn, mae’r panel yn ystyried y meini prawf canlynol:

- barn ac adborth y dioddefwr a’r troseddwr
- cydymffurfedd â pholisi’r heddlu
- y rhesymeg dros y penderfyniad a’r canlyniad
- yr effaith bosibl ar y gymuned
- yr amgylchiadau a difrifoldeb y drosedd
- opsiynau eraill posibl a allai fod wedi bod ar gael

Mae’r panel yn trafod pob achos ac yn eu categoreiddio fel un o’r canlynol:

- defnydd priodol sy’n gyson â pholisi
- defnydd priodol ond bod gan aelodau’r panel amheuon
- defnydd amhriodol neu anghyson â pholisi
- y panel yn methu â dod i gasgliad

## 3.0 Cymeradwyaeth gan gadeirydd y panel

Gallaf i _Carys Morgans_ (enw mewn print) gadarnhau fy mod wedi darllen yr adroddiad, a’i fod yn cynrychioli’n llawn y safbwyntiau a fynegwyd gan y panel yn ystod ein hymarfer hapsamplu, dyddiedig 29 Medi 2025.

Llofnodwyd: 

Dyddiad: 16/12/2025

## 4.0 Camau a gymerwyd yn dilyn cyfarfod blaenorol y panel

O ganlyniad i waith y Panel Craffu ar Ddatrysiadau y Tu Allan i’r Llys, mae’r camau gweithredu canlynol wedi’u cwblhau ers y cyfarfod diwethaf:

- Cyfarfu cadeirydd y panel â'r heddlu i drafod yr angen am arweinydd ym maes plismona sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Ers y cyfarfod, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi penodi arweinydd.

## 5.0 Meysydd i’w gwella a themâu sy’n codi droeon (achosion ieuenctid)

Nodwyd y meysydd canlynol ar gyfer gwella a’r themâu sy’n codi droeon a ganlyn yn ystod yr adolygiad o achosion ieuenctid:

- Anghysondebau o ran cyhoeddi datrysiadau y tu allan i’r llys ar draws yr heddlu.
- Mae angen i swyddogion ddefnyddio ac ymgysylltu â swyddogion y tîm troseddwyr ifanc yn amlach.
- Amseroldeb cwblhau achosion.

## 6.0 Ystyriaeth o achosion ieuenctid

Adolygodd aelodau’r panel wyth achos yn ymwneud â phobl ifanc. O’r achosion hynny, cyhoeddwyd gweithgaredd dargyfeiriol, addysgol neu ymyrraeth i un ohonynt (canlyniad 22) a datrysiad cymunedol ieuenctid i saith.

Roedd asesiadau’r aelodau fel a ganlyn:

| Asesiad yr aelodau | Nifer yr achosion |
|---|---|
| Priodol | 3 |
| Priodol ond gydag amheuon | 3 |
| Amhriodol | 2 |

**Achos 1**

Nododd y panel, o dan amgylchiadau'r achos hwn, fod y gweithgaredd dargyfeiriol yn briodol mewn perthynas â'r troseddwr honedig. Dilynodd trafodaeth ynghylch y defnydd anghyson o ddatrysiadau y tu allan i'r llys ar gyfer pobl ifanc ledled ardal Heddlu Dyfed-Powys. Trafododd y panel, er enghraifft, fod achos 3 o natur debyg ond bod y troseddwr honedig wedi cael datrysiad adferol ieuenctid. Galwodd y panel ar Heddlu Dyfed-Powys i adolygu'r anghysondebau.

**Asesiad y panel: Priodol**

**Cam gweithredu 1: Cynrychiolwyr Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r panel i gyfarfod ag arweinydd plismona sy'n canolbwyntio ar y plentyn yr heddlu i drafod y defnydd anghyson o ddatrysiadau y tu allan i'r llys a'r defnydd amhriodol o ddatrysiadau**

**Achos 2**

Nodwyd bod gan y troseddwr honedig euogfarnau blaenorol am droseddau o natur debyg a'i fod wedi cael datrysiad adferol ieuenctid yn flaenorol am guro. Felly, cytunodd y panel fod y datrysiad y tu allan i'r llys a gyhoeddwyd yn amhriodol.

**Asesiad y panel: Amhriodol**

**Cam gweithredu 2: Darparu canfyddiadau'r panel ynghylch y defnydd amhriodol o'r datrysiad y tu allan i'r llys ar gyfer achos 2 i'r swyddog(ion).**

**Achos 3**

Nododd y panel yr ymchwiliad manwl a gynhaliwyd ar gyfer yr achos hwn a nododd, o dan yr amgylchiadau, gan gynnwys dim parti a anafwyd, fod y datrysiad y tu allan i'r llys yn briodol. Er hynny, cymharodd y panel yr achos hwn ag achos rhif 1, gan nodi ei bryderon ynghylch yr anghysondebau.

**Asesiad y panel: Priodol ond gydag amheuon**

**Achos 4**

Nodwyd bod y parti a anafwyd yn gefnogol i'r datrysiad adferol ieuenctid a bod y troseddwr honedig yn edifar. Trafododd y panel oedran ifanc y troseddwr honedig a phwysigrwydd cadw pobl ifanc allan o'r system cyfiawnder troseddol. Felly, barnwyd bod y datrysiad y tu allan i'r llys yn briodol.

**Asesiad y panel: Priodol**

**Achos 5**

Nododd y panel fod y parti a anafwyd yn cefnogi'r canlyniad, sef datrysiad y tu allan i'r llys. Er hynny, cododd y panel bryderon bod y troseddwr honedig i bob golwg yn targedu'r parti a anafwyd ac nad oedd wedi dangos unrhyw edifeirwch. Daeth y panel i'r casgliad bod y datrysiad y tu allan i'r llys yn briodol o fewn amgylchiadau'r achos hwn ond roedd ganddo amheuon y byddai'n rhaid delio ag unrhyw droseddau yn y dyfodol drwy'r llysoedd.

**Asesiad y panel: Priodol ond gydag amheuon**

**Achos 6**

Trafododd y panel yn fanwl amgylchiadau'r troseddwr honedig, sy'n hysbys i'r tîm troseddwyr ifanc. Nodwyd, er bod y datrysiad y tu allan i'r llys yn gywir yn weithdrefnol ac yn briodol, y gallai swyddogion fod wedi gwneud mwy o bosibl, megis cysylltu â'r tîm troseddwyr ifanc.

**Asesiad y panel: Priodol ond gydag amheuon**

**Achos 7**

Nodwyd bod y parti a anafwyd yn cefnogi'r datrysiad y tu allan i'r llys, a darparodd y troseddwr honedig ymddiheuriad a thalu digolledd. Felly, ystyriwyd bod y datrysiad y tu allan i'r llys yn briodol.

**Asesiad y panel: Priodol**

**Achos 8**


Nododd y panel ddifrifoldeb y digwyddiad hwn a nododd y byddai gweithgaredd dargyfeiriol fel canlyniad 22 wedi bod yn well. Trafodwyd hefyd fod yr achos wedi'i gofnodi fel ymosodiad cyn cael ei ddiwygio i aflonyddu, er y nodwyd bod angen ei ailddosbarthu i lefel uwch. Felly penderfynodd y panel fod y datrysiad y tu allan i'r llys yn amhriodol.

**Asesiad y panel: Amhriodol**

| |
|---|
| **Cam gweithredu 3: Darparu canfyddiadau'r panel ynghylch y defnydd amhriodol o'r datrysiad y tu allan i'r llys ar gyfer achos 8 i'r swyddog(ion).** |


## 7.0 Asesiadau'r panel hyd yma

Mae'r siart isod yn dangos asesiad y panel o achosion ieuenctid o stelcio ac aflonyddu a ystyriwyd yn y cyfarfod diweddaraf:





Mae'r panel wedi ystyried amrywiaeth o ddatrysiadau. Roedd y datrysiadau a ystyriwyd ym mis Medi 2024 yn cynnwys 56% o ddatrysiadau adferol ieuenctid a 44% o ddatrysiadau cymunedol ieuenctid. Ym mis Medi 2024, deliwyd â 99% o'r achosion a ystyriwyd trwy ddatrysiad adferol ieuenctid gydag 1% drwy weithgaredd dargyfeiriol, addysgol neu ymyrraeth (canlyniad 22).


Gellir gweld y newid yng nghasgliadau'r panel rhwng mis Medi 2024 a mis Medi 2025 yn y graff isod:




Mae'r graff isod yn dangos y dadansoddiad yn ôl y math o drosedd fel canran o achosion a ystyriwyd rhwng mis Ebrill 2023 a mis Medi 2025.





Mae'r graff canlynol yn dangos nifer gwirioneddol yr achosion a aseswyd o fewn pob math o drosedd, a barn y panel a ddaeth yn sgil hynny yn eu cyfarfodydd rhwng mis Ebrill 2023 a mis Medi 2025.




## 8.0 Ethnigrwydd a rhywedd

Mae'r siart canlynol yn dangos dadansoddiad o'r achosion a adolygwyd yn y cyfarfod hwn o ran rhywedd:




Mae'r tabl canlynol yn dangos dadansoddiad o'r achosion a adolygwyd yn y cyfarfod hwn o ran ethnigrwydd.

| Ethnigrwydd a nodwyd | Hunanasesid yr unigolyn a ddrwgdybir | Asesiad y swyddog |
|---|---|---|
| Gwyn Prydeinig | 8 | 0 |
| Gwyn – Gogledd Ewrop | 0 | 8 |
| Anhysbys | 0 | 0 |

Ni nodwyd unrhyw faterion cydraddoldeb o ran hil na rhywedd fel rhan o adolygiad y panel.

## 9.0 Ffocws y panel yn y dyfodol

Yn dilyn trafodaeth, penderfynodd y panel y byddent yn hoffi canolbwyntio ar achosion cyffuriau yn y cyfarfod nesaf.

## 10.0 Camau gweithredu

| Rhif y cam gweithredu | Crynodeb | I'w symud ymlaen gan |
|---|---|---|
| Datrysiad y tu allan i'r llys – 161 | Cynrychiolwyr Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r panel i gyfarfod ag arweinydd plismona sy'n canolbwyntio ar y plentyn yr heddlu i drafod y defnydd anghyson o ddatrysiadau y tu allan i'r llys a'r defnydd amhriodol o ddatrysiadau adferol ieuenctid yn ardal Heddlu Dyfed-Powys. | Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu |
| Datrysiad y tu allan i'r llys – 162 | Darparu canfyddiadau'r panel ynghylch y defnydd amhriodol o'r datrysiad y tu allan i'r llys ar gyfer achos 2 i'r swyddog(ion). | Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu |
| Datrysiad y tu allan i'r llys – 163 | Darparu canfyddiadau'r panel ynghylch y defnydd amhriodol o'r datrysiad y tu allan i'r llys ar gyfer achos 8 i'r swyddog(ion). | Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu |